O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 214 (Cy. 27)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*4 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*15 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 3 Mawrth 2013 ac yn dod i ben pan gaiff arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.